# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgor 5**

Dyddiad: Dydd Llun, 24 Ebrill 2023

Amser: 13.30 - 16.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13309

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jenny Rathbone AS (Cadeirydd)<br>Jane Dodds AS<br>Altaf Hussain AS<br>Sarah Murphy AS<br>Sioned Williams AS<br>Ken Skates AS |
| Staff y Pwyllgor: | Rhys Morgan (Clerc)<br>Rachael Davies (Ail Glerc)<br>Angharad Roche (Dirprwy Glerc)<br>Gareth Thomas (Ymchwil) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

Ni chafwyd ymddiheuriadau, dirprwyon na datganiadau o fuddiant

## 2 Papurau i'w nodi

Nododd yr Aelodau y papurau.

Mewn perthynas ag Eitem 2.8, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am wybodaeth ychwanegol ynghylch y materion a godwyd.

2.1 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch diogelwch adeiladau.

2.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch y bwriad i ychwanegu cyrff cyhoeddus newydd at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.3 Gohebiaeth â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS).

2.4 Gohebiaeth gan Gyngor ar Bopeth Cymru at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch cwmnïau ynni

2.5 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch adroddiad Archwilio Cymru ar Gynhwysiant Digidol

2.6 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ynghylch y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol

2.7 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at yr Arglwydd Bellamy ynghylch tystiolaeth yn ymwneud â'r system gyfiawnder yng Nghymru

2.8 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar brofiadau menywod o'r system cyfiawnder troseddol

2.9 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid ynglŷn â rhaglen ymgysylltu Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

2.10 Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Pwyllgor Cyllid ynghylch Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2023-24

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd yr Aelodau y cynnig.

## 4 Dyled ac effaith costau byw cynyddol: trafod yr adroddiad drafft.

Trafododd yr Aelodau yr adroddiad drafft a chytunwyd i gwblhau’r adroddiad y tu allan i'r Pwyllgor.

## 5 Blaenraglen waith: ystyried y dull o ymdrin â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Bu’r Aelodau’n trafod dull y Pwyllgor o ymdrin â gwaith yn ymwneud â Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru, a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i ofyn am wybodaeth ychwanegol.

## 6 Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: y dull o ran ymgysylltu

Bu’r Aelodau’n trafod opsiynau ar gyfer gwaith ymgysylltu ynghylch yr ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd.

## 7 Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: adroddiad monitro

Nododd yr Aelodau’r adroddiad monitro ar y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.